# Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth Agored y DU 2019-21: Ymrwymiadau Llywodraeth Cymru

## Cynnwys


Cyflwyniad ........................................................................................................2

Ymrwymiad 1: Ymgysylltu.................................................................................3

Ymrwymiad 2: Mynediad at Wybodaeth .........................................................5

Ymrwymiad 3: Canllawiau ar Gyhoeddi Data Agored ar gyfer Cyrff Cyhoeddus .......7

Ymrwymiad 4: Grantiau ....................................................................................9

Ymrwymiad 5: Deddfwriaeth...........................................................................11

Ymrwymiad 6: Ymgysylltu Ariannol ...............................................................13

# Cyflwyniad

Mae’r set ddiweddaraf hon o ymrwymiadau Llywodraeth Agored Llywodraeth Cymru yn rhan o Gynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth Agored cyffredinol y DU 2019-21, ynghyd ag ymrwymiadau gan y gweinyddiaethau datganoledig eraill.

Mae'r ymrwymiadau’n nodi ein huchelgeisiau dros y ddwy flynedd nesaf i fod yn fwy agored ac ymatebol i ddinasyddion, yn fwy atebol ac i fabwysiadu dull mwy cydweithredol o weithio.

Wrth ddatblygu'r set hon o ymrwymiadau, rydym wedi ymgysylltu â chymdeithas sifil a dinasyddion gweithredol trwy Rwydwaith Llywodraeth Agored Cymru, gan geisio mynd i'r afael â rhai o'r meysydd ar gyfer gweithio’n fwy agored a nodwyd ganddynt. Amcanwn at barhau â’r dull cydweithredol hwn ac adeiladu arno wrth roi'r gyfres bresennol hon o ymrwymiadau ar waith ac wrth ddatblygu ymrwymiadau ar gyfer y dyfodol.

# Ymrwymiad 1: Ymgysylltu

**Byddwn yn ymchwilio i wahanol ffyrdd o ymgysylltu â phobl a sefydliadau er mwyn cefnogi mwy o gydweithio a bod yn agored, gan gynnwys sut i ddarparu dull cyfannol, Llywodraeth gyfan mwy cydlynol.**

## Amcan

Cynnwys a chynyddu ymgysylltiad a chydweithio ag ystod ehangach o randdeiliaid.

## Y sefyllfa ar hyn o bryd

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus (gan gynnwys Llywodraeth Cymru) i ystyried pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â buddiant mewn cyrraedd y saith nod llesiant a nodir yn y Ddeddf ac i sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth y maent yn gweithredu ynddi.

Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad hirsefydlog i ymgysylltu, er enghraifft trwy'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu, a gymeradwywyd ganddi. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi rhoi hwb o'r newydd i asesu sut y mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â phobl ac yn eu cynnwys wrth lunio polisïau a gwneud penderfyniadau.

Rydym yn ymgysylltu'n eang ynghylch ein blaenoriaethau ac rydym yn parhau i chwilio am ffyrdd newydd a gwahanol o gynnwys pobl a sefydliadau. Rydym eisoes wedi gwneud gwelliannau i'r ffordd yr ydym yn ymgynghori trwy ddatblygu gwasanaeth ymgynghori gwell trwy llyw.cymru, ac rydym am adeiladu ar y gwaith hwn.

## Uchelgais

Nodi a datblygu gwahanol ffyrdd o ymgysylltu â phobl a sefydliadau er mwyn cael gwell dealltwriaeth am y materion sy'n wynebu dinasyddion yng Nghymru. Y canlyniad a fwriedir yw sicrhau bod dinasyddion yn cael eu cynnwys wrth helpu i ddatblygu polisïau sy'n effeithio arnynt ac wrth ddarparu'r gwasanaethau y gallant eu defnyddio.

## Sefydliad gweithredu arweiniol

Llywodraeth Cymru

## Amserlen

Mawrth 2019 – Mawrth 2021

## Gwerthoedd y Bartneriaeth Llywodraeth Agored

Cyfranogiad dinesig

## Ymrwymiad newydd neu barhaus

Newydd

## Cyfranwyr eraill

Y Rhwydwaith Llywodraeth Agored a Chymdeithas Sifil

| Cerrig milltir gwiriadwy a mesuradwy i gyflawni'r ymrwymiad | Newydd neu barhaus | Dyddiad cychwyn | Dyddiad gorffen |
|---|---|---|---|
| 1: Parhau i weithio ac ymgysylltu â chymdeithas sifil yng Nghymru. | Newydd | Mawrth 2019 | Mawrth 2021 |
| 2: Defnyddio gwahanol ddulliau i ymgysylltu a chydweithio â chymunedau i wella ffyniant yng nghymoedd De Cymru. | Newydd | Medi 2018 | Mawrth 2021 |
| 3: Treialu dulliau newydd o reoli rhanddeiliaid, gan ddefnyddio offer ymgysylltu a chydweithio digidol i gefnogi gwaith y tasglu | Newydd | Tachwedd 2019 | Mawrth 2021 |
| 4: Nodi a chynyddu'r defnydd o offer a phlatfformau digidol er mwyn ei gwneud yn bosibl ymgysylltu’n well | Newydd | Mawrth 2019 | Mawrth 2021 |
| 5: Datblygu pecyn cymorth i helpu swyddogion i ymgysylltu â'r cyhoedd a sefydliadau a'u cynnwys yn y broses o lunio a chyflwyno polisïau. | Newydd | Mawrth 2019 | Mawrth 2021 |
| 6: Datblygu pecyn o gyfleoedd datblygu ar gyfer swyddogion i wella eu sgiliau ymgysylltu a chynnwys | Newydd | Mawrth 2019 | Mawrth 2021 |
| 7: Parhau i ddatblygu gweithgareddau ymgysylltu Cadw sy'n cysylltu cymunedau â'u henebion a'u hadeiladau lleol | Newydd | Mawrth 2019 | Mawrth 2021 |

# Ymrwymiad 2: Mynediad at Wybodaeth

**Byddwn yn trefnu bod gwybodaeth am ddulliau gweithio Llywodraeth Cymru yn haws i'w chanfod a'i chyrchu trwy wella ein gwefan.**

## Amcan

Helpu defnyddwyr i ddod o hyd i'r wybodaeth am Lywodraeth Cymru a sut y mae'n gweithredu.

## Y sefyllfa ar hyn o bryd

Mae gwefan Llywodraeth Cymru yn cynnwys cryn dipyn o wybodaeth sy'n ymwneud â busnes y Llywodraeth, sut mae'r Llywodraeth yn gweithio a'r berthynas â Llywodraeth y DU, Llywodraeth Leol a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae busnes y Llywodraeth yn amrywio'n eang a gall y prosesau busnes cysylltiedig fod yn gymhleth.

Er bod gwybodaeth am fusnes y Llywodraeth yn cael ei chynnal ar wefan(nau) Llywodraeth Cymru, mae'n aml yn wasgaredig, sy'n gallu ei gwneud yn anodd i ddefnyddwyr gael gafael ar yr wybodaeth y mae ei hangen arnynt.

## Uchelgais

Bydd gwella hygyrchedd gwybodaeth a ddelir ar llyw.cymru yn galluogi pobl i gael dealltwriaeth well am rôl Llywodraeth Cymru a sut y mae'n gweithio mewn perthynas â Llywodraeth y DU a llywodraeth leol. Bydd hyn hefyd yn helpu pobl i wybod pa rannau o Lywodraeth Cymru sydd â pha gyfrifoldebau fel y gallant gysylltu â'r adran berthnasol neu gorff allanol priodol ar faterion sydd o ddiddordeb iddynt.

## Sefydliad gweithredu arweiniol

Llywodraeth Cymru

## Amserlen

Mawrth 2019 – Mawrth 2021

## Gwerthoedd y Bartneriaeth Llywodraeth Agored

Mynediad at wybodaeth

## Ymrwymiad newydd neu barhaus

Newydd

## Cyfranwyr eraill

-

| Cerrig milltir gwiriadwy a mesuradwy i gyflawni'r ymrwymiad | Newydd neu barhaus | Dyddiad cychwyn | Dyddiad gorffen |
|---|---|---|---|
| 1: Parhau i boblogi'r tudalennau Llywodraeth agored ar wefan Llywodraeth Cymru | Newydd | Mawrth 2019 | Mawrth 2021 |
| 2: Cynhyrchu a chyhoeddi manylion y meysydd y mae uwch weision sifil yn gyfrifol amdanynt a'r portffolios Gweinidogol y maent yn eu cefnogi | Newydd | Mawrth 2019 | Mawrth 2021 |
| 3: Trefnu bod gwybodaeth am sut a pham yr ydym yn defnyddio data personol ar gael trwy sicrhau bod Hysbysiadau Preifatrwydd Llywodraeth Cymru yn cael eu cyhoeddi'n agored a'u bod ar gael yn rhwydd | Newydd | Mawrth 2019 | Rhagfyr 2019 |
| 4. Cyhoeddi'n agored restr o gytundebau rhannu data sy'n ymwneud ag ystadegau ac ymchwil. | Newydd | Mawrth 2019 | Rhagfyr 2019 |
| 5: Datblygu tudalennau sy'n egluro sut y mae'r Llywodraeth yn gweithio yng Nghymru a'i chysylltiadau â Llywodraeth y DU a llywodraeth leol | Newydd | Mawrth 2019 | Mawrth 2021 |
| 6: Datblygu tudalennau i helpu defnyddwyr i ddeall sut yr ydym yn caffael nwyddau a gwasanaethau a'u helpu i ddod o hyd i'r wybodaeth berthnasol | Newydd | Ionawr 2019 | Medi 2019 |
| 7: Ymchwilio i'r modd y gallwn helpu defnyddwyr i ganfod a chael gafael ar y data agored y mae ei angen arnynt | Newydd | Mawrth 2019 | Mawrth 2021 |

# Ymrwymiad 3: Canllawiau ar Gyhoeddi Data Agored ar gyfer Cyrff Cyhoeddus

**Byddwn yn cydweithio i ddatblygu canllawiau sy'n rhoi anogaeth i gyhoeddi a defnyddio data agored yn fwy ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.**

## Amcan

Cynyddu swm y data agored a gyhoeddir gan y sector cyhoeddus yng Nghymru. Dylai'r rhaglen gyhoeddi roi pwyslais ar fynd i'r afael â gofynion defnyddwyr, gyda'r nod o roi anogaeth i ddefnyddio data agored yn fwy.

## Y sefyllfa bresennol

Er bod diddordeb mewn cyhoeddi data agored yng Nghymru, mae'r gallu i gyhoeddi'n gallu cael ei rwystro oherwydd diffyg dealltwriaeth am sut i wneud data'n agored a pha ddata y dylid ei flaenoriaethu. Gall hyn beri i wybodaeth beidio â bod ar gael neu fod ar gael yn rhannol yn unig, a all negyddu neu gyfyngu ar ei ddefnydd posibl gan ddefnyddwyr.

Trwy gydweithio i ddatblygu canllawiau ar gyfer y sector cyhoeddus cyfan yng Nghymru, rhagwelwn y bydd mwy o ddata agored yn cael ei ryddhau, y bydd dull cyson o ryddhau data agored ac y rhoddir sylw i ofynion defnyddwyr.

## Uchelgais

Trwy ddefnyddio data agored cyhoeddedig yn fwy, gellid gwireddu nifer o fanteision posibl, gan gynnwys gwelliannau o ran darparu gwasanaethau, cynyddu ymgysylltiad y cyhoedd, mwy o atebolrwydd ac ysgogi gweithgarwch economaidd.

## Sefydliad gweithredu arweiniol

Llywodraeth Cymru

## Amserlen

Mehefin 2019 – Mawrth 2021

## Gwerthoedd y Bartneriaeth Llywodraeth Agored

Mynediad at wybodaeth, Data Agored

## Ymrwymiad newydd neu barhaus

Newydd

### Cyfranwyr eraill

Y Rhwydwaith Llywodraeth Agored, ODI-Cardiff, Data Cymru a chyrff y Sector Cyhoeddus

| Cerrig milltir gwiriadwy a mesuradwy i gyflawni'r ymrwymiad | Newydd neu barhaus | Dyddiad cychwyn | Dyddiad gorffen |
|---|---|---|---|
| 1: Nodi cyhoeddwyr data agored yn y sector cyhoeddus a darpar ddefnyddwyr data agored yng Nghymru | Newydd | Mawrth 2019 | Mehefin 2019 |
| 2: Ymgysylltu â darpar gyhoeddwyr a defnyddwyr data agored i gytuno ar gynnwys a chwmpas y canllawiau | Newydd | Mai 2019 | Hydref 2019 |
| 3: Datblygu canllawiau drafft | Newydd | Hydref 2019 | Mawrth 2020 |
| 4: Treialu'r defnydd o'r canllawiau drafft | Newydd | Mawrth 2020 | Mawrth 2021 |

# Ymrwymiad 4: Grantiau

**Rydym yn ymrwymedig i drefnu bod gwybodaeth am y grantiau a'r prosesau ymgeisio am grantiau ar gael yn fwy agored.**

## Amcan

Darparu mwy o eglurder ynglŷn â’r broses o ymgeisio am grantiau Llywodraeth Cymru ac o ddarparu’r grantiau hynny.

## Y sefyllfa bresennol

Bob blwyddyn mae Llywodraeth Cymru yn gwario tua £13bn ar grantiau ar draws meysydd portffolio pob Gweinidog. Mae Llywodraeth Cymru yn rhyddhau manylion yr holl daliadau a wneir sydd dros £25,000 mewn gwerth fel mater o drefn. Cyhoeddir adroddiad blynyddol ar reoli grantiau, sy'n cyflwyno nifer o ystadegau grantiau lefel-uchel; fodd bynnag, nid yw data ynghylch y cynlluniau grantiau na'r arlwy grantiau’n cael ei gyhoeddi fel mater o drefn.

Trwy sicrhau bod data ynghylch grantiau ar gael yn agored, rhagwelir y bydd y cyhoedd yn cael dealltwriaeth well am y modd y mae Llywodraeth Cymru yn gwario arian yng Nghymru.

## Uchelgais

Bydd trefnu bod gwybodaeth ar gael ynghylch y modd y caiff grantiau eu dosbarthu’n rhoi dealltwriaeth well i ddinasyddion am y modd y defnyddir arian cyhoeddus yng Nghymru a'r gweithgareddau y mae'n eu hariannu. Bydd hyn yn darparu mwy o atebolrwydd. Bydd egluro pa grantiau sydd ar gael a sut y gall dinasyddion gael gafael arnynt yn sicrhau bod pawb yn cael cyfle i wneud cais am y grantiau y mae eu hangen arnynt.

## Sefydliad gweithredu arweiniol

Llywodraeth Cymru

## Amserlen

Mawrth 2019 – Mawrth 2021

## Gwerthoedd y Bartneriaeth Llywodraeth Agored

Mynediad at wybodaeth, Atebolrwydd cyhoeddus

## Ymrwymiad newydd neu barhaus

Newydd

## Cyfranwyr eraill

-

| Cerrig milltir gwiriadwy a mesuradwy i gyflawni'r ymrwymiad | Newydd neu barhaus | Dyddiad cychwyn | Dyddiad gorffen |
|---|---|---|---|
| 1: Dechrau proses i lunio, cyhoeddi a chynnal rhestr ganolog o grantiau presennol Llywodraeth Cymru | Newydd | Mehefin 2019 | Mawrth 2021 |
| 2: Ceisio cyhoeddi'r wybodaeth ddiweddaraf am grantiau Llywodraeth Cymru yn agored | Newydd | Mehefin 2019 | Mawrth 2021 |
| 3: Cydgysylltu'r canllawiau ar gynlluniau grantiau Llywodraeth Cymru | Newydd | Mehefin 2019 | Mawrth 2021 |

# Ymrwymiad 5: Deddfwriaeth

**Byddwn yn helpu dinasyddion i ddeall y gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru, trwy ei gwneud yn haws dod o hyd i wybodaeth a thrwy ddarparu gwasanaethau chwilio a chynnwys dwyieithog.**

## Amcan

Gwneud cyfraith Cymru yn hygyrch, yn glir ac yn syml i'w defnyddio.

## Y sefyllfa bresennol

Am nifer o flynyddoedd, codwyd pryderon ynghylch cymhlethdod y gyfraith yn y DU. Mae'r mater hwn yn arbennig o ddifrifol yng Nghymru oherwydd y setliad datganoli, yr awdurdodaeth gyfreithiol unigol, anhawster canfod ble mae Deddfau Seneddol yn gymwys mewn ffordd wahanol yng Nghymru a pharhau i ehangu corff dwyieithog o gyfreithiau unigryw i Gymru. Roedd adroddiad Comisiwn y Gyfraith yn 2016, "Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru" yn ystyried achosion ac effeithiau cyfreithiau anhygyrch.

## Uchelgais

Y nod hirdymor yw creu llyfr statud trefnus ar gyfer Cymru a fydd yn categoreiddio'r gyfraith yn ôl Codau ar bynciau penodol. Rydym hefyd yn gweithio tuag at wella sut y mae'r ddeddfwriaeth bresennol (a'i dogfennaeth ategol) yn cael ei chyhoeddi a'i threfnu. Bydd hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth am sut y mae'r gyfraith yng Nghymru'n cael ei llunio a dangos sut y gwneir hynny.

## Sefydliad gweithredu arweiniol

Llywodraeth Cymru

## Amserlen

Rhagfyr 2018 – Mawrth 2021

## Gwerthoedd y Bartneriaeth Llywodraeth Agored

Mynediad at wybodaeth; Technoleg ac arloesi ar gyfer bod yn agored ac yn atebol

## Ymrwymiad newydd neu barhaus

Newydd

## Cyfranwyr eraill

Yr Archifau Cenedlaethol; Comisiwn y Gyfraith (Cymru a Lloegr),
Westlaw UK

| Cerrig milltir gwiriadwy a mesuradwy i gyflawni'r ymrwymiad | Newydd neu barhaus | Dyddiad cychwyn | Dyddiad gorffen |
|---|---|---|---|
| 1: Gosod dyletswydd gyfreithiol newydd ar y Cwnsler Cyffredinol i adolygu hygyrchedd cyfraith Cymru a chreu dyletswyddau newydd ar Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol i ddatblygu a gweithredu rhaglen barhaus i wella hygyrchedd cyfraith Cymru. | Newydd | Rhagfyr 2018 | Mawrth 2021 |
| 2: Ailddatblygu gwefan Cyfraith Cymru / Law Wales (sy'n darparu gwybodaeth am setliad cyfansoddiadol Cymru, a'r gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru). | Newydd | Gorffennaf 2019 | Mawrth 2021 |
| 3: Ehangu'r wybodaeth sydd ar gael ar Cyfraith Cymru / Law Wales am y gyfraith a gaiff ei llunio yng Nghymru, gan gynnwys testun dwyieithog a deunydd eglurhaol | Newydd | Gorffennaf 2019 | Mawrth 2021 |
| 4: Gwella hygyrchedd yr wybodaeth am gyfraith Cymru sydd ar gael ar legislation.gov.uk trwy gyhoeddi a diweddaru deddfwriaeth yn ddwyieithog a thrwy ddatblygu offer chwilio dwyieithog newydd i wneud cyfraith Cymru yn haws dod o hyd iddi. | Newydd | Mawrth 2019 | Mawrth 2021 |
| 5: Gwella'r wybodaeth am y broses ddeddfu, gan gynnwys cyhoeddi canllawiau ar wefan llyw.cymru ac ar Cyfraith Cymru / Law Wales ynghylch sut y caiff deddfwriaeth ei pharatoi a'i gwneud. | Newydd | Mawrth 2019 | Mawrth 2021 |

# Ymrwymiad 6: Ymgysylltu Ariannol

**Byddwn yn archwilio gwahanol ffyrdd o ymgysylltu â phobl a sefydliadau i gefnogi gwell dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth a natur fwy agored mewn perthynas â'r modd y mae Llywodraeth Cymru yn cael ei chyllid, sut y caiff arian ei godi drwy drethi a ddatganolwyd i Gymru a sut y caiff y cyllid hwnnw ei wario ar draws gwasanaethau cyhoeddus datganoledig.**

## Amcan

Codi ymwybyddiaeth o gyllid Llywodraeth Cymru, yn benodol o ble y daw'r arian a sut y caiff ei wario. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i ymgysylltu â dinasyddion i roi mwy o eglurder a dealltwriaeth ynglŷn â chyllid cyhoeddus Cymru.

## Y sefyllfa bresennol

Mae cymdeithas sifil yn dymuno deall sut y mae Llywodraeth Cymru yn pennu cyllidebau a sut y caiff trethi eu gwario yng Nghymru. Byddent yn hoffi:

- deall sut y mae Llywodraeth Cymru yn penderfynu ble y caiff arian treth ei wario
- gwybodaeth am ble y caiff arian treth ei wario
- sicrwydd bod Llywodraeth Cymru yn gymwys yn ariannol a'i bod yn gwario arian yn ddoeth.

## Uchelgais

Nodi a datblygu gwahanol ffyrdd o ymgysylltu â dinasyddion a sefydliadau er mwyn cynyddu dealltwriaeth a chyfranogiad yn y daith rhwng trethiant a gwariant cyhoeddus yng Nghymru.

Cael dealltwriaeth am flaenoriaethau dinasyddion o ran gwariant Llywodraeth Cymru a helpu i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch sut y defnyddir yr adnoddau hynny.

Datblygu prosesau mwy agored a thryloywder o ran proses y gyllideb a gwariant Llywodraeth Cymru.

Ei gwneud yn haws cael gafael ar y data sy'n sail i benderfyniadau Llywodraeth Cymru i ddyrannu adnoddau yn y ffordd fwyaf effeithiol.

## Sefydliad gweithredu arweiniol

Llywodraeth Cymru

## Amserlen
Mawrth 2019 – Mawrth 2021

## Gwerthoedd y Bartneriaeth Llywodraeth Agored
Cyfranogiad Dinesig, Mynediad at Wybodaeth

## Ymrwymiad newydd neu barhaus
Newydd

## Cyfranwyr eraill
Awdurdod Cyllid Cymru, y Rhwydwaith Llywodraeth Agored, Cyllid a Thollau EM, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Gymdeithas Sifil

| Cerrig milltir gwiriadwy a mesuradwy i gyflawni'r ymrwymiad | Newydd neu barhaus | Dyddiad cychwyn | Dyddiad gorffen |
|---|---|---|---|
| 1: Nodi ffyrdd o wella dealltwriaeth am gyllidebau Llywodraeth Cymru a'r adnoddau sydd ar gael i ariannu gwasanaethau cyhoeddus datganoledig. | Newydd | Mawrth 2019 | Mawrth 2021 |
| 2: Cyhoeddi mwy o wybodaeth gyllidebol ac ariannol, gan gynnwys manylion cyswllt, mewn fformat agored, trwy wefan Llywodraeth Cymru. | Newydd | Mawrth 2019 | Mawrth 2021 |
| 3: Ceisio adeiladu ar ein gweithgareddau ymgysylltu a gwella'r gweithgareddau hynny mewn perthynas â datblygu trethi a pholisi trethiant ar gyfer Cymru. | Newydd | Mawrth 2019 | Mawrth 2021 |
| 4: Awdurdod Cyllid Cymru i fynd ati'n rheolaidd i gyhoeddi gwybodaeth yn agored am drethi a ddatganolwyd i Gymru. | Newydd | Mawrth 2019 | Mawrth 2021 |
| 5: Cyhoeddi gwybodaeth o bryd i'w gilydd ynghylch prosiectau seilwaith a ariennir trwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol (proses i alluogi Llywodraeth Cymru a'r | Newydd | Mawrth 2019 | Mawrth 2021 |

| | |
|---|---|
| sector preifat i ariannu prosiectau ar y cyd). | |